27.10.2022

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# O Gwmderi i Gaer - Lois Meleri-Jones ar daith i ddal y mellt

Mae'r actores o Ynys Môn, Lois Meleri-Jones, yn ymddangos ar y sgrin yn gyson fel Tesni Parri, un o gymeriadau'r opera sebon, Pobol Y Cwm.

Ond bydd nifer hefyd yn ei adnabod o gyfres ddrama ddiweddaraf S4C, **Dal y Mellt**.

Yn drosiad o nofel Iwan 'Iwcs' Roberts, mae'r stori'n dilyn hynt a helynt criw annhebygol sy'n rhoi cynllun dial uchelgeisiol ar waith. Wrth i ddiwedd y gyfres agosáu, mae Lois yn trafod ei chymeriad Antonia a'r rhagolygon am ail gyfres.

"Antonia ydi'r bos," meddai Lois. "Mae hi'n gymeriad cryf iawn sydd mor warchodol o'i chriw."

Y criw dan sylw yw Carbo (Gwïon Morris-Jones), Gronw (Dyfan Roberts) Mici Ffin (Mark Lewis Jones), Les (Graham Land), Dafydd Aldo (Owen Arwyn) a Cidw (Ali Yassine).

"Mae hi'n byw yn annibynnol i ffwrdd o fferm y teulu, Bwlch y Gloch, ac yn gweithio mewn stablau yn Gaer. Ceffylau yw ei bywyd. Mae hi'n awdurdodol, cryf a hyderus. Hi ydi'r unig ferch yng nghanol y criw, yr un sy'n rheoli'r cyfan. Ond eto mae 'na haenau iddi, mae hi'n gallu bod yn lot o hwyl hefyd.

"Mae mor braf portreadu cymeriad fel hyn, dynes gref a pwerus, sy'n gwybod beth mae hi isio. Mae'n beth gathartig chwarae'r rhan a chael yr hyder 'na. Dwi'n gallu bod yn orbryderus ar adegau felly mae'n neis chwarae rhywun fel hyn. Mi fasw ni'n licio bod mwy fel Antonia weithiau.

"O ni'n gwybod yn syth ei bod hi'n arbennig. Mi wnes i brynu'r llyfr ar ôl cael gwahoddiad am glyweliad am y rhan. Oedd rhaid i fi stopio darllen achos o ni wir yn dychmygu fy hun yn chwarae'r rhan - o ni ddim eisiau cael fy siomi."

Gwelwn hefyd ochr bregus y cymeriad, wrth i berthynas ddechrau ddatblygu rhwng Antonia a Carbo.

"Ar y dechrau mae hi'n llythrennol yn ei reoli o. Mae hi'n disgyn amdano fo achos mae hi'n dod i'w 'nabod o. Hi ydi'r un sy'n dweud na achos mae hi wedi arfer rheoli pobl eraill, a hi ei hun ac mae hi'n llwyddo rheoli ei theimladau nes mae rhywbeth yn digwydd iddi hi ar ddiwedd y gyfres.

“Lle fydd y berthynas yn mynd wedyn? Pwy a ŵyr? Dwi’n gofyn i Iwcs trwy’r amser, a dal heb gael ateb - ond yn sicr mae’r cyfan yn hollol agored am ail gyfres.”

Os nad ydych wedi gwylio’r ddrama eto, mae Lois yn eich annog i fynd ar S4C Clic neu BBC iPlayer: “Tydi Dal y Mellt ddim yn gomedi, ond os wyt ti eisiau rhywbeth i godi dy galon, dyma gyfle arbennig i ddenig i fyd y cymeriadau ‘ma. Mae o’n gyffrous, gwahanol ac yn ddihangfa llwyr.”

Gwyliwch pennod olaf **Dal y Mellt** nos Sul am 9.00 ar S4C. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwylio hyd at yr eiliad olaf.

**Dal y Mellt**
**Dydd Sul 6 Tachwedd, 9.00**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Vox Pictures ar gyfer S4C**

27.10.2022

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i’r Wasg Press Release**

# Anglesey actor, Lois Meleri-Jones, steps up as a strong female lead

The actress from Anglesey, Lois Meleri-Jones, regularly appears on screen as Tesni Parri, one of the characters from Cwmderi in the soap opera, Pobol Y Cwm.

But many will also recognise her from S4C's latest drama series, **Dal y Mellt**.

An adaptation of Iwan 'Iwcs' Roberts's novel, the story follows the ups and downs of an unlikely crew who implement an ambitious plan to seek revenge on old enemies. As the last of the six episodes approaches, Lois looks in detail at her character Antonia and the prospects for a second series.

"Antonia is the boss," said Lois. "She’s a very strong character who is protective of her crew."

The crew in question are Carbo (Gwïon Morris-Jones), Gronw (Dyfan Roberts) Mici Ffin (Mark Lewis Jones), Les (Graham Land), Dafydd Aldo (Owen Arwyn) and Cidw (Ali Yassine).

“She lives away from home, working at a stable in Chester, driven by her passion for horses. She’s independent, authoritative, strong and confident. She’s the only woman among a group of men, and is the one calling all the shots. But there are layers to her, she can be a lot of fun too.

"It's so nice to portray a character like this, a strong and powerful woman who knows what she wants. It's cathartic to play the part, to have that confidence. I can be anxious at times so it's nice to play someone like this. I wish I could be more like Antonia at times.

"I knew straight away that she was special. I bought the book after being invited to audition for the part. I had to stop reading because I really imagined myself playing her - I didn't want to be disappointed."

We also see the vulnerable side of Antonia, as a relationship begins to develop between her and young mechanic Carbo.

“At first she literally controls him. Then, she falls for him because she gets to know him. She’s the one who put the brakes on the relationship because she is so used to controlling other people and herself. She manages to control those feelings until something happens to her right at the very end of the series.

“Where will the relationship go? Who knows. I ask Iwcs all the time, and I still haven't had the answer - but everything is left completely open for a second series."

If you haven't watched the drama yet, Lois encourages you to do so on S4C Clic or BBC iPlayer: "Dal y Mellt isn't a comedy, but if you want something to cheer you up, here's an opportunity to get lost in the world of these characters. It's different, exciting and a complete escape."

Watch the last episode on Sunday night at 9.00 on S4C. Make sure you watch until the very end.

**Dal y Mellt**
**Sunday 6 November, 9.00**
**English subtitles available**
**On S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**
**A Vox Pictures production for S4C**